Ymddiriedolaeth Cefnogwyr Dinas Abertawe

Dynevor House, 5-6 De La Beche Street, Swansea, SA1 3HA

www.swanstrust.co.uk

✉ **info@swanstrust.co.uk**

YN DATHLU 20 MLYNEDD YN 2021

Mae **Ymddiriedolaeth Cefnogwyr Dinas Abertawe** yn berchen ar 21% o'r cyfranddaliadau yng Nghlwb Pêl-droed Dinas Abertawe ac mae'n cael ei gydnabod yn swyddogol gan y Gymdeithas Cefnogwyr Pêl-droed.

Ffurfiwyd yr Ymddiriedolaeth gan gefnogwyr Abertawe yn 2001 ar adeg pan oedd y clwb dan bwysau ariannol ac yn ymladd am ei einioes. Mae'n darparu cyfle unigryw i gefnogwyr fynegi'u barn ar weinyddiaeth y clwb trwy Fwrdd yr Ymddiriedolaeth. Mae aelodau'r Bwrdd yn wirfoddolwyr a etholwyd gan aelodau'r Ymddirieolaeth.

Mae aelod etholedig o Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, Cyfarwyddwr y Cefnogwyr, yn eistedd ar Fwrdd Cyfarwyddwyr Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe. Mae aelodau eraill o Fwrdd yr Ymddiriedolaeth yn ymwneud yn gyson â Thîm Reoli'r clwb mewn meysydd eraill, yn enwedig y rhai sy'n effeithio yn uniongyrchol ar gefnogwyr.

Mae angen eich cymorth! Ni all yr Ymddiriedolaeth fod yn rymus heb aelodaeth iach. Un o'n nodau allweddol yw i gynrychioli llais y cefnogwyr a'i drosglwyddo'n uniongyrchol i'r clwb. Wrth ddod yn aelod o'r Ymddiriedolaeth rydych yn syth yn:

- rhan bwysig a gweithredol o gyfran 21% Ymddiriedolaeth yr Elyrch yn y clwb
- caniatáu i ni barhau i gyfathrebu gyda'r aelodaeth wrth gyfrannu at ein costau gweinydol cynyddol. Mae taliadau aelodaeth a chyfraniadau yn hynod bwysig i ni.
- Cynorthwyo i gefnogi ein elusennau dewisiedig a'n cynghreiriau pêl-droed ieuenctid a hŷn lleol

Beth arall ydym yn ei wneud?

- Trefnu Fforymau Cefnogwyr a Digwyddiadau Cymdeithasol a Chodi Arian mewn cydweithrediad â'r Clwb
- Yn 2012 sefydlwyd "Wal Enwogrwydd" Robbie James gennym sydd nawr yn cynnwys 100 o enwogion y clwb
- Caniatáu i ysgolion uwchradd lleol gyfranogi o'n Prosiect menter ysgolion arloesol. Ewch at ein gwefan am fwy o fanylion neu gliciwch **yma**
- Cydgysylltu a chydweithio gyda phrosiectau grŵpiau cymunedol a chefnogwyr h.y. Cymdeithas Cefnogwyr Anabl, Ymddiriedolaeth Gymunedol Dinas Abertawe, Mind Abertawe ac ati.
- Hyrwyddo a datblygu grŵpiau Cefnogwyr yr Elyrch, yn lleol ac ar draws y byd, gyda chymorth y clwb.

Os hoffech chi ddarllen mwy am Ymddiriedolaeth Cefnogwyr Dinas Abertawe, ei wreiddiau, nodau a chyfrifoldebau, cewch ragor o wybodaeth ar ein gwefan **www.swanstrust.co.uk**

Ac os hoffech chi fod yn rhan o Ymddiriedolaeth yr Elyrch yna cewch ymuno trwy lenwi'r ffurflen aelodaeth ar gefn y daflen hon. Medrwch ymuno hefyd trwy ein gwefan neu gliciwch **yma**

Peidiwch ac anghofio ein bod ar gael bob amser i ymateb i faterion a phryderon ein aelodau a chefnogwyr trwy Ebost, Gweplyfr, Trydar ac Instagram. Mae aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth ar gael ar ddyddiau gêm yn Pod yr Ymddiriedolaeth, o gwmpas y stadiwm, bar y Riverside neu Glwb Cymdeithasol Glandŵr.

Ymddiriedolaeth Cefnogwyr Dinas Abertawe - yn gwarchod Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe am 20 mlynedd

Ymddiriedolaeth Cefnogwyr Dinas Abertawe

Yn dathlu 20 mlynedd yn 2021

Cais am Aelodaeth o'r Ymddiriedolaeth 2020/21

Enw _____

Cyfeiriad _____

Tref / Dinas _____ Côd Post _____

Ebost _____ Dyddiad Geni _____

Ffôn _____ Symudol _____

Aelodaeth Lawn:	Oedolyn (19-59)	£10	☐
	Hŷn (60+)	£5	☐
	Ieuenctid (16-18)	£2	☐
	Ieuenctid (o dan 16)	£2	☐ (dim hawliau pleidleisio)

Hoffwn wneud cais am aelodaeth lawn o Ymddiriedolaeth yr Elyrch am y flwyddyn aelodaeth 2020/21.

Ydych chi wedi bod yn aelod o Ymddiriedolaeth yr Elyrch o'r blaen? Ydw ☐ Nac ydw ☐

Hoffwn dderbyn y gostyngiad o 50% ar geisiadau aelodaeth a dderbynnir erbyn 31/12/20?
Hoffwn ☐ Ni hoffwn ☐

Rwy'n cadarnhau taliad o £_____ trwy

Trosglwyddiad banc ☐ Siec ☐ Arian parod ☐ ***Nodwch eich enw teuluol fel cyfeirnod***

Manylion banc: Enw cyfrif: **SCST** Côd banc: **208441** Rhif Cyfrif: **93016927**

IBAN: **GB02BUKB20844193013627** SWIFT: **BUKBGB22**

DS: Os bydd taliad uwch na'r tâl aelodaeth priodol wedi'i amgau, rwy'n deall y bydd y gweddill yn cael ei drin fel cyfraniad ac yn cael ei dalu i Gronfa Cyfranddaliadau'r Ymddiriedolaeth.

Os hoffech sefydlu Archeb Sefydlog i dalu'ch tâl aelodaeth a/neu unrhyw gyfraniad arall i'r Ymddiriedolaeth yn y dyfodol nodwch hynny yn y bocs hwn ☐ a fe gysylltwn ni â chi.

Wrth ymuno ag Ymddiriedolaeth Cefnogwyr Dinas Abertawe, rydych yn cytuno i ni gysylltu â chi yn achlysurol neu ddanfon gwybodaeth atoch yr ydym yn meddwl y bydd o fudd i chi neu a ofynnwyd gennych, gan gynnwys ein cylchlythyr a gwybodaeth am aelodaeth.

Arwyddwyd _____ Dyddiad _____

Gellir ebostio'r ffurflen wedi'i chwblhau at **info@swanstrust.co.uk** os yn talu yrwy drosglwyddiad banc. Neu os yn talu â siec anfonwch gyda'r ffurflen at Swansea City Supporters' Trust, Tŷ Dinefwr, 5-6 Stryd De La Beche, Abertawe SA1 3HA. Sylwer: Rhaid i daliadau arian parod gael eu rhoi'n uniongyrchol i swyddogion yn Pod yr Ymddiriedolaeth cyn gemau cartref.

Gallwch hefyd ymuno arlein a thalu trwy PayPal ar **www.swanstrust.co.uk/join-the-trust**

Ymddiriedolaeth Cefnogwyr Dinas Abertawe

Yn dathlu 20 mlynedd yn 2021